

# Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion

I'w ddarllen ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant pan fydd pryderon am Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

Gyda diolch arbennig i weithwyr proffesiynol ym maes addysg, diogelu ac ymchwil sydd wedi cyfrannu i'r gwaith hwn.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Mewn partneriaeth â
NSPCC CYMRU | WALES

Credwch mewn plant
Barnardo's Cymru



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| I bwy mae'r canllawiau hyn? | p 4 |
| Beth yw diben y canllawiau hyn? | p 4 |
| Key definitions and guidance | p 6 |
| Pennod 1:<br>Cynnwys y canllawiau | p 8 |
| Pennod 2:<br>Dyletswyddau a chyfrifoldebau lleoliadau addysg | p 11 |
| Pennod 3:<br>Dull lleoliad ysgol gyfan o atal ac ymateb i gam-drin a chamfanteisio gan gyfoedion | p 13 |
| Atodiadau:<br>Enghraifft o Gynllun Diogelwch Disgybl Ysgol | p 21 |

# I bwy mae'r canllawiau hyn?

Mae'r canllawiau hyn i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant (hyd at 18 oed) mewn lleoliadau addysg.

Mae hyn yn cynnwys staff y blynyddoedd cynnar, staff ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a staff colegau addysg bellach.

# Beth yw diben y canllawiau hyn?

Mae gan bob plentyn hawl i fod yn ddiogel ac i beidio â chael ei gam-drin (Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) ac mae gan bob plentyn hawl i gael addysg (Erthygl 28 o'r Confensiwn).

Mae amddiffyn plant yn gyfrifoldeb y mae pawb sy'n dod i gyswllt â phlant a phobl ifanc yn ei rannu.

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi adnoddau ymarferol i leoliadau addysg er mwyn atal ac ymateb i achosion o gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion. Gall yr achosion hyn ddigwydd y tu mewn a'r tu allan i'r lleoliadau hynny. Mae'n cynnwys cam-drin a chamfanteisio digidol.

Dylai lleoliadau addysg ddefnyddio'r canllawiau hyn i greu polisïau clir i atal ac ymateb i achosion o gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion, fel y gall pob plentyn sy'n mynychu eu lleoliadau wireddu ei hawl i fod yn ddiogel a'i hawl i gael addysg.



# Y prif ddiffiniadau a chanllawiau

## Cam-drin rhywiol

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn ymwneud â gorfodi neu ddenu plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd neu beidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithrediadau treiddgar neu weithrediadau nad ydynt yn dreiddgar; gweithgareddau heb gyswllt, fel ymhél plant i edrych ar, neu gymryd rhan mewn, cynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol annerbyniol.

Mae Cam-drin Plant yn Rhywiol yn derm gyffredinol ac mae'n cynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol.

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol, Llywodraeth Cymru, 2019

## Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae'n ffurf ar gam-drin rhywiol sy'n gallu cynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgaredd rhywiol â phlentyn; creu delweddau anweddus, a/neu unrhyw ddelweddau anweddus eraill sy'n ymwneud â phlant

Mae'n cynnwys plentyn. Mae'n digwydd i'r rhai hyd at 18 oed.

Mae'n cynnwys rhyw fath o gyfnewid. Gall y cyfnewid gynnwys rhoi neu dynnu rhywbeth yn ôl, megis atal trais neu fygythiadau i gam-drin unigolyn arall. Efallai y bydd hwylusydd sy'n derbyn rhywbeth yn ogystal â'r plentyn neu yn lle'r plentyn sy'n dioddef o'r camfanteisio. Efallai na fydd plant yn cydnabod natur gamfanteisiol y berthynas neu'r cyfnewid. Efallai y bydd plant yn teimlo fel eu bod wedi rhoi eu caniatâd.

Ffynhonnell: Canllaw ymarfer ar Diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol, Gweithdrefnau Diogelu Cymru

## Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

Gellir diffinio Ymddygiadau Rhywiol Niweidiol (YRhN) fel: ymddygiad rhywiol a fynegir gan blant a phobl ifanc dan 18 oed sy'n amhriodol yn ddatblygiadol, a allai fod yn niweidiol tuag at eu hunain neu i eraill, neu fod yn sarhaus tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn. Mae'r diffiniad hwn o YRhN yn cynnwys ymddygiadau â chyswllt corfforol ac ymddygiadau digyswllt (rhagbaratoi, arddangosiaeth, llygadu a thecstio rhywiol neu recordio delweddau o weithredoedd rhywiol drwy ffonau clyfar neu apiau cyfryngau cymdeithasol).

Ffynhonnell: Canllaw ymarfer ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, Gweithdrefnau Diogelu Cymru

## Aflonyddu rhywiol

Yng nghyd-destun y canllawiau hyn, diffinnir aflonyddu rhywiol fel ymddygiad digroeso parhaus o natur rywiol gan blentyn tuag at blentyn arall. Gall hyn ddigwydd ar-lein a phan nad yw pobl ar-lein. Mae aflonyddu rhywiol yn debygol o: amharu ar urddas plentyn, a/neu wneud iddo deimlo dan fygythiad, wedi'i iselhau neu gywilyddio, a/neu greu amgylchedd cas, ymosodol a rhywiol.

Fynhonell: Yr adran addysg, Llywodraeth y DU: Trais rhywiol ac aflonyddu rhywiol rhwng plant mewn ysgolion a cholegau: cyngor i gyrff llywodraethu, perchenogion, penaethiaid, prifathrawon, uwch dimau arwain ac arweinwyr diogelu dynodedig.

## Canllawiau defnyddiol

Dylai gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau addysg fod yn ymwybodol o'r canllawiau perthnasol hyn:

Canllaw ymarfer ar Ddiogelu Plant rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Canllaw Ymarfer ar Ddiogelu Plant pan fydd pryderon am Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Canllaw ymarfer ar Ddiogelu Plant rhag Cam-drin Ar-lein, Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

Cynllun Gweithredu Diogelwch Ar-lein Llywodraeth Cymru

Canllawiau secstio Cyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd

Gweithdrefnau Diogelwch Cymru Dolenni i ganllawiau statudol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant (i'w gyhoeddi yn fuan)

# Pennod 1: Cynnwys y canllawiau

Nod y canllawiau hyn yw helpu lleoliadau addysg i atal a mynd i'r afael ag achosion o gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion.

Gall cam-drin rhywiol ddigwydd rhwng plant waeth beth yw eu hoedran a'u rhyw, ac mae iddo sawl ffurf mewn continwwm sy'n amrywio o aflonyddu rhywiol i gam-drin rhywiol drwy gyswllt corfforol, gan gynnwys camfanteisio rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion.  Wrth drafod cam-drin rhywiol gan gyfoedion, yr hyn a olygir yw cam-drin ymysg plant o oedrannau/grwpiau blwyddyn tebyg, tra bydd mathau eraill o ymddygiad rhywiol niweidiol yn golygu bod gwahaniaeth mawr yn oedran y bobl dan sylw.

Mae cam-drin rhywiol gan gyfoedion yn digwydd fwyfwy drwy blatfformau digidol, a hynny'n gwneud y sefyllfa'n fwy cymhleth wrth i leoliadau addysg geisio mynd i'r afael â'r mater.

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r continwwm o ymddygiadau sy'n gyfystyr â cham-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion.  Mae'n bwysig bod lleoliadau addysg yn ymateb i bob math o ymddygiad mewn ffordd gymesur, gan ddechrau drwy gyflwyno dull ysgol gyfan o greu perthnasau iach sy'n dangos parch rhwng cyfoedion a thrwy roi ar waith weithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant addas pan fydd galw.



## Ymddygiad rhywiol gan blant

Mae ymddygiad rhywiol plant yn bodoli ar gontinwwm eang, o'r hyn sy'n normal ac yn ddisgwyliedig yn ddatblygiadol, i'r hyn sy'n amhriodol, yn broblemus, yn gamdriniaeth ac yn dreisgar.  Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau addysg ddeall y continwwm hwn o ymddygiadau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymyrryd mewn ffordd addas.

Mae **Hackett (2010)**[1] wedi cynnig model continwwm i ddisgrifio'r ystod o ymddygiadau rhywiol y mae plant a phobl ifanc yn eu harddangos, a dylai hynny helpu gweithwyr proffesiynol i wybod pa ymddygiadau a all fod yn niweidiol a pha rai sy'n rhan o ddatblygiad rhywiol iach.

Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio'r model continwwm i roi cyd-destun i rai o'r ymddygiadau y bydd lleoliadau addysg yn dod ar eu traws. Mae hyn yn cynnwys ymddygiadau ar-lein.

Ni fydd angen cyfeirio ymddygiadau sy'n perthyn i'r categori amhriodol a phroblemus at y gwasanaethau cymdeithasol bob tro: yn hytrach, gall pobl ifanc elwa o strategaethau ymyriadau cynnar yn yr ysgol (gweler pennod 4 sy'n trafod sut i ymateb i gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion). Bydd angen i'r Person Diogelu Dynodedig gyfeirio ymddygiadau sy'n perthyn i'r categori camdriniaeth a threisgar at y gwasanaethau cymdeithasol.

Efallai hefyd y bydd Adnodd Goleuadau Traffig Ymddygiadau Rhywiol Brook[2] yn ddefnyddiol i leoliadau addysg wrth ganfod ymddygiadau rhywiol o fewn categorïau oedran penodol. Mae'r adnodd Goleuadau Traffig Ymddygiadau Rhywiol yn rhoi canllawiau sy'n cyd-fynd â'r hyn sy'n briodol, yn gadarnhaol ac yn ddiogel yn ôl oedran a datblygiad plant. Mae'r adnodd yn defnyddio categorïau goleuadau gwyrdd, oren a choch i helpu oedolion i ganfod, deall ac ymateb i ymddygiadau rhywiol plant a phobl ifanc yn ôl amrediadau oedran: 0-4, 5-7, 8-12, 13-15 ac 16-18. Mae modd i ystod eang o weithwyr proffesiynol ddefnyddio'r adnodd, gan gynnwys ysgolion, canolfannau addysg plant yn y blynyddoedd cynnar a chanolfannau gofal, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, a seicolegwyr. Gall teuluoedd hefyd ei ddefnyddio.

| Normal | Inappropriate | Problematic | Abusive | Violent |
|---|---|---|---|---|
| • Developmentally expected<br><br>• Socially acceptable<br><br>• Consensual, mutual, reciprocal<br><br>• Shared decision making | • Single instances of inappropriate sexual behaviour<br><br>• Socially acceptable behaviour within peer group<br><br>• Context for behaviour may be inappropriate<br><br>• Generally consensual and reciprocal | • Problematic and concerning behaviours<br><br>• Developmentally unusual and socially unexpected<br><br>• No overt elements of victimisation<br><br>• Consent issues may be unclear<br><br>• May lack reciprocity or equal power<br><br>• May include levels of compulsivity | • Victimising intent or outcome<br><br>• Includes misuse of power<br><br>• Coercion and force to ensure victim compliance<br><br>• Intrusive<br><br>• Informed consent lacking, or not able to be freely given by victim<br><br>• May include elements of expressive violence | • Physically violent sexual abuse<br><br>• Highly intrusive<br><br>• Instrumental violence which is physiologically and/ or sexually arousing to the perpetrator<br><br>• Sadism |

1 Hackett, S (2010). Children, young people and sexual violence. Yn Barter C a Berridge, D (eds) *Children behaving badly? Exploring peer violence between children and young people*, Llundain: Blackwell Wiley.

2 https://www.brook.org.uk/training/wider-professional-training/sexual-behaviours-traffic-light-tool/

## Aflonyddu rhywiol

Gall gweithwyr addysg proffesiynol ddod ar draws adroddiadau am yr ymddygiadau canlynol y tu mewn/y tu allan i'w lleoliadau:

- sylwadau rhywiol, fel: adrodd straeon rhywiol, gwneud sylwadau anweddus, gwneud sylwadau rhywiol am ddillad ac ymddygiad pobl, a galw enwau rhywiol ar bobl;
- 'tynnu coes' neu watwar rhywiol;
- ymddygiad corfforol, fel: mynd i giwbiclau mewn toiledau ysgolion, lled gyffwrdd yn fwriadol â rhywun, ymhél â dillad rhywun (dylai ysgolion a cholegau fod yn ystyried pryd y bydd hyn yn croesi'r llinell i fod yn drais rhywiol – mae'n bwysig siarad ac ystyried profiad y dioddefwr) a dangos lluniau, fideos neu ddarluniau o natur rywiol.

Wrth ystyried digwyddiadau o'r fath, mae'n bwysig canfod a **yw'r ymddygiad yn ddigwyddiad ynysig, ynteu'n rhan o batrwm sy'n ailadrodd**. Er y gellir galw digwyddiadau ynysig yn achosion o ymddygiad amhriodol, gallai patrwm ailadroddus o aflonyddu rhywiol fod yn arwydd o ymddygiad problemus o dan gontinwwm Hackett.

Yng nghyd-destun y canllawiau hyn, diffinnir aflonyddu rhywiol fel 'ymddygiad digroeso parhaus o natur rywiol' gan blentyn tuag at blentyn arall a all ddigwydd ar-lein ac all-lein. Mae aflonyddu rhywiol yn debygol o: amharu ar urddas plentyn, a/neu wneud iddo deimlo dan fygythiad, wedi'i iselhau neu gywilyddio, a/neu greu amgylchedd cas, ymosodol a rhywiol.

Mae'n bwysig bod ysgolion a cholegau'n ystyried aflonyddu rhywiol mewn termau eang. Os na chaiff ei herio, gall aflonyddu rhywiol (fel y disgrifir uchod) greu awyrgylch sy'n normaleiddio ymddygiadau amhriodol a chreu amgylchedd a allai arwain at drais rhywiol. Mae ymchwil[3] wedi canfod y gall staff a myfyrwyr greu neu atgyfnerthu normau sy'n rhoi sail i ymddygiadau rhywiol niweidiol, ac wrth wneud hynny gallant greu cyd-destunau sy'n arwain at gamdriniaeth rhywiol gan gyfoedion. Gall hynny gynnwys beio'r dioddefwyr eu hunain.

Dylai lleoliadau addysg hefyd ystyried rhagfarn ddiarwybod ymhlith staff a mynd i'r afael â hynny.

Mae'r Athro Jessica Ringrose wedi gweithio'n ddiweddar gyda Sexplain i ddatblygu canllawiau i ysgolion yn Lloegr ar gyfer ymdrin ag aflonyddu rhywiol, a gallai'r rhain fod yn ddefnyddiol i leoliadau addysg.[4]

## Cam-drin ac aflonyddu rhywiol digidol

Mae pobl ifanc yn profi cam-drin a chamfanteisio'n gynyddol ar-lein a/neu yn ddigidol. Bydd hyn yn fwy anodd i leoliadau addysg ei ganfod, gan fod rhywfaint ohono'n debygol o ddigwydd y tu allan i ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried effaith hyn ar fywydau pobl ifanc pan nad ydynt ar-lein.

Bydd cyfran o'r aflonyddu rhywiol a ddisgrifir yn yr adran flaenorol yn digwydd ar-lein a/neu yn ddigidol. Gall y rhain fod yn ddigwyddiadau ar eu pennau'u hunain, neu'n rhan o batrwm ehangach o aflonyddu rhywiol ac/neu drais rhywiol. Gall gynnwys:

- Rhannu delweddau a fideos rhywiol heb gydsyniad. Mae Cyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd wedi creu cyngor manwl i ysgolion a cholegau am hyn.
- bwlio rhywiol ar-lein;
- sylwadau a negeseuon rhywiol digroeso, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol; a
- dwyn pwysau a bygwth.

3 Carlene Firmin (2019): *School rules of (sexual) engagement: government, staff and student contributions to the norms of peer sexual-abuse in seven UK schools*, Journal of Sexual Aggression.

4 https://sexplain.org.uk/guidance-for-schools?fbclid=IwAR0rPcCTLldlluaTKjVv5GBTpddMIYGgWwXNXR0t6wpqoCoFUxejMqSvWLI

# Pennod 2: Dyletswyddau a chyfrifoldebau lleoliadau addysg

## 2.1 Dyletswyddau cyffredinol

Mae gan ysgolion a cholegau ddyletswydd statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles y plant yn eu hysgolion/colegau.[5]

Yng Nghymru mae adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar weithwyr addysg proffesiynol i hysbysu bod plentyn yn wynebu risg os oes gan y gweithwyr sail resymol dros gredu hynny. Diffinnir plentyn sy'n wynebu risg fel plentyn sy'n cael neu sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac y mae angen gofal a chymorth arno.

Dylai lleoliadau addysg roi sylw i'r canllawiau statudol a chanllawiau ymarfer hyn: Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5: Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg, a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.[6]

## 2.2 Hawliau dynol a dyletswyddau cydraddoldeb

Dylai lleoliadau addysg fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae'n anghyfreithlon i leoliadau addysg weithredu mewn ffordd sy'n groes i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ymhlith yr hawliau hyn mae:

- Erthygl 3: yr hawl i ryddid rhag triniaeth annynol a diraddiol (hawl ddiamod);
- Erthygl 8: yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (hawl amodol), sy'n cynnwys dyletswydd i amddiffyn urddas corfforol a seicolegol unigolion;
- Erthygl 14: yn ei gwneud yn ofynnol i warchod a chymhwyso'r holl hawliau a phob rhyddid yn y Ddeddf heb wahaniaethu;
- Protocol 1, Erthygl 2: yn gwarchod yr hawl i addysg effeithiol. Gall dioddef trais rhywiol neu aflonyddu rhywiol olygu torri unrhyw un neu bob un o'r hawliau hyn, gan ddibynnu ar natur yr ymddygiad a'r amgylchiadau.

---

5 Mae adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu colegau ac ysgolion a gynhelir, o ran eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymddygiad yr ysgol neu'r sefydliad, wneud trefniadau i sicrhau bod swyddogaethau o'r fath yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles y plant sydd naill ai'n ddisgyblion yn yr ysgol neu'n cael addysg neu hyfforddiant yn y sefydliad

6 Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-5-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-plant-syn-wynebu-risg.pdf a https://diogelu.cymru/

Mae gofyn i leoliadau addysg gydymffurfio â'r gofynion perthnasol sydd wedi'u pennu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf Cydraddoldeb).[7]

- Yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb, rhaid i leoliadau addysg beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn disgyblion oherwydd eu rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu gyfeiriadedd rhywiol (nodweddion gwarchodedig).
- Er bod y camau gwarchod uchod i gyd yn bwysig, yng nghyd-destun y canllawiau hyn, dylai lleoliadau addysg ystyried yn ofalus sut y maent yn cefnogi eu disgyblion o ran eu rhyw a'u rhywioldeb.
- Mae darpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu i leoliadau addysg gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag anfanteision penodol sy'n effeithio ar un grŵp, os gellir dangos bod hynny'n gymesur. Er enghraifft, gallai ysgol neu goleg ystyried cymryd camau cadarnhaol i gefnogi merched os byddai tystiolaeth i ddangos eu bod yn dioddef yn anghymesur o drais rhywiol neu aflonyddu rhywiol.



7 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

# Pennod 3: Dull lleoliad ysgol gyfan o atal ac ymateb i gam-drin, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion

## 3.1: Y prif egwyddorion ar gyfer atal ac ymateb i gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion

Wrth greu strategaethau a pholisïau i atal ac ymateb i gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion, dylai lleoliadau addysg roi'r egwyddorion hyn ar waith:

### Cefnogi pob plentyn

Dylai ymarferwyr fabwysiadu dull hawliau plant a dilyn y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Dylid cefnogi pob plentyn i aros mewn addysg os yw hynny'n ddiogel i'r plentyn ei hun ac yn ddiogel i bobl eraill.

Pan fydd plant yn cymryd rhan mewn cam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion mewn lleoliadau addysg, rhaid eu hystyried yn blant yn gyntaf oll, gan ystyried eu hanghenion gofal a chefnogaeth yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn arall. Mae'n bwysig nad yw plant yn destun gwarth oherwydd eu hymddygiad. Mae Erthygl 2 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn un o'r pedair prif erthygl sy'n rhoi'r 'egwyddorion canllaw' ar gyfer gweithio o fewn fframwaith hawliau plant.

Mae'n bwysig cofio y gall bechgyn a merched arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl yn dueddol o ymateb drwy feddwl am les merched, tra bo ymddygiad rhywiol niweidiol gan fechgyn yn cael ei ystyried yn fater sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol.[8]

Os bydd plant wedi profi cam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion, dylid eu cefnogi i siarad, gwrando arnynt, a'u galluogi i gael y cymorth y mae ei angen arnynt, a hynny mewn lleoliadau addysg a'r tu allan iddynt. Ar sail ymgynghoriad ag ystod eang o weithwyr proffesiynol, mae'r NSPCC wedi llunio cyngor i weithwyr proffesiynol ar gyfer ymwneud mewn ffordd sensitif ac effeithiol â phlentyn pan fydd yn datgelu rhywbeth.[9]

---

8 S. Wareham a W. Steer (2015) *Girls Talk: Supporting Girls to Develop Heathy Sexual Relationships*, Caerdydd: Barnardo's Cymru a Boys 2 https://www.barnardos.org.uk/adnoddau-i-helpu-i-ganfod-ac-ymgysylltu-phobl-ifanc-sydd-mewn-perygl-o-gam-drin-rhywiol

9 https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/2019/let-children-know-you-re-listening

## Dull ysgol gyfan

Dylai perthnasau sy'n dangos parch, materion lles a chamau diogelu fod yn ganolog i ethos lleoliadau addysg, a dylent fod yn rhan o bob agwedd ar fywyd y lleoliadau hynny.

Bydd ymyrryd yn gynnar hefyd yn hollbwysig er mwyn atal ac ymateb yn llwyddiannus i gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion. Yn benodol, dylai lleoliadau addysg hyrwyddo diwylliant lle na chaiff bwlio ac aflonyddu rhywiol fyth ei oddef na'i ddiystyru fel 'cellwair', boed hynny'n ddigidol neu pan na fydd plant ar-lein: *mae dulliau ysgol gyfan yn pwysleisio'r angen i gymryd camau atal sy'n cynnwys gweithgareddau niferus mewn ysgolion, a'r rheini'n targedu rhanddeiliaid niferus, gyda disgyblion, staff a rhieni yn eu plith.*[10] Yn gyntaf oll, dylai Uwch Dîm Arwain yr Ysgol a Chorff Llywodraethu'r Ysgol gytuno ar bolisi ysgol gyfan i atal a mynd i'r afael â cham-drin gan gyfoedion, a hyrwyddo hwnnw.[11] Mae pecyn cymorth Farrer&Co ar gam-drin gan gyfoedion yn cynnwys cwestiynau i helpu ysgolion i ganfod y prif faterion y bydd yn rhaid i'w polisi a'u dull hwy o weithio roi sylw iddynt.[12]

Mae'n bwysig hefyd hyrwyddo diwylliant lle caiff pobl eu hannog a'u cefnogi i siarad am gam-drin, gan fod ymchwil yn dangos bod yr ofn o gael eu labelu'n rhywun sy'n achwyn yn rhwystr mawr i blant rhag datgelu pethau mewn lleoliadau addysg.[13] Dylid mynd i'r afael â hyn hefyd drwy roi sylw iddo yn y cwricwlwm.

Dylid hyrwyddo perthnasau iach drwy gynnwys dysgwyr yn y gwaith o ddatblygu diwylliant ac ethos yr ysgol. Yng Nghymru, mae'r pecynnau cymorth Agenda ac Agenda Cynradd[14] wedi'u creu i alluogi pobl ifanc i sicrhau bod perthnasau cadarnhaol yn bwysig mewn ysgolion a lleoliadau eraill.

## Ymwneud â rhieni

Canfu ymgynghoriad gan NSPCC Cymru a Barnardo's Cymru yn 2018 fod rhieni plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn teimlo nad oes ganddynt y gallu na'r wybodaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad eu plant. Mae canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn datgan y dylai gweithwyr proffesiynol drafod unrhyw bryderon am les â'r teulu, ac os yw'n bosib, dylid gweithio gyda'r teulu i atgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn olygu bod y plentyn yn wynebu risg uwch o niwed. Mae'n bwysig hefyd gofyn am farn y plentyn ac ystyried ei farn ynghylch a ddylid rhoi gwybod i'r teulu, yn enwedig os yw'r plentyn yn ddigon aeddfed i fod â barn wybodus.

Mae cael cefnogaeth y rhieni a'r gofalwyr yn hynod o ddefnyddiol er mwyn ymwneud â'r teulu a sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Mae'n bwysig bod lleoliadau addysg yn ymwneud â phob rhiant yn gynnar fel eu bod yn rhan o'r ymateb. Dylid rhoi gwybod i rieni am ymateb lleoliadau addysg a'r camau nesaf bob amser.

Canfu ymgynghoriad gan NSPCC Cymru a Barnardo's Cymru yn 2018 fod rhieni plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn teimlo nad oes ganddynt y gallu na'r wybodaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad eu plant. Rhieni plant a oedd wedi cael eu hatgyfeirio am asesiad gofal a chefnogaeth oedd y rhain. Fodd bynnag, dylid ystyried sut y mae rhieni'n ymateb i faterion ar lefelau 'amhriodol' a 'phroblemus' continwwm Hackett a'u cyfeirio hwythau at gefnogaeth hefyd os bydd angen.

10 Jenny Lloyd, *Response and interventions into harmful sexual behaviour in schools*, Child Abuse and Neglect 94 (2019)

11 Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002, Llywodraeth Cymru, 2015, 2.20-2.25 Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel-rol-awdurdodau-lleol-cyrff-llywodraethu-a-pherchnogion-ysgolion-annibynnol-o-dan-ddeddf-addysg-2002.pdf

12 https://www.farrer.co.uk/globalassets/clients-and-sectors/safeguarding/farrer--co-safeguarding-peer-on-peer-abuse-toolkit-2019.pdf

13 https://contextualsafeguarding.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/Final-Briefing-final-Beyond-Referrals.pdf

14 Gweler http://agenda.wales/

### Diogelu cyd-destunol

Yn ogystal ag ymwneud â rhieni, mae'n bwysig i leoliadau addysg ddeall ac ymwneud ag elfennau o'r cyd-destun allanol sy'n effeithio ar natur ymddygiad rhywiol plant. Disgrifir diogelu cyd-destunol fel a ganlyn: *dull o ddeall ac ymateb i'r risg o niwed y gall plant fod yn ei wynebu, a/neu y niwed y gallant ei brofi, y tu allan i'w teuluoedd. Mae'n cydnabod bod y perthnasau gwahanol y bydd plant yn eu ffurfio yn eu cymdogaethau, ysgolion ac ar-lein yn gallu cynnwys trais, rheolaeth drwy orfodaeth, a cham-drin.*[15]

### Dull aml-asiantaeth

Dylid ystyried ymateb effeithiol i gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol mewn lleoliadau addysg yng nghyd-destun ehangach dull aml-asiantaeth o weithio. Mae lleoliadau addysg yn bartneriaid o bwys yn hyn o beth.

Mae Prifysgol Swydd Bedford, y Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol a'r NSPCC wedi datblygu adnodd defnyddiol, Beyond Referrals, sy'n rhoi rhagor o fanylion am brif nodweddion dull aml-asiantaeth effeithiol o atal ac ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol.[16] Mae'r adnodd yn cyfeirio at bedair prif elfen dull aml-asiantaeth o weithio, gyda sawl dull gwahanol ym mhob elfen.

Mae prif nodweddion dull aml-asiantaeth o weithio wrth ymateb i gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion wedi'u hamlinellu isod:

**RESPONSE AND INTERVENTION (5)**

| THEME | DESCRIPTION | GREEN | AMBER | RED |
|---|---|---|---|---|
| **HSB resource** | HSB resource in partnership | Regardless of criminal investigation:<br>• The MA partnership has invested in specialist HSB interventions and/or clinical teams capable of delivering assessments and interventions.<br>• Youth service provision exists and has been equipped to support young people associated with HSB incidents where appropriate.<br>• Wider services within the partnerships, policing, health and youth offending service work to shared objectives when managing cases of HSB in schools. | • Regardless of criminal investigation, wider services within the partnerships; policing, health and youth offending service, work to shared objectives when managing cases of HSB in schools. | • The response to HSB incidents by schools are largely determined by criminal investigations. |
| **Dissemination of intervention** | Dissemination of HSB intervention | • Steps taken by the MA partnership to prevent or intervene with incidents of HSB are clearly communicated to local schools.<br>• Schools are aware of success within the MA partnership in responding to HSB and related incidents. | • Steps taken by the MA partnership to prevent or intervene with incidents of HSB are communicated to some schools largely via MA or case management meetings. | • Schools are unaware of success within the MA partnership in responding to HSB. |
| **Relationship with schools** | MA partnership relationships with schools | • MA partnership draws upon KCSIE, and commits resources, in order to facilitate positive relationships with all education providers within their geographical area to support schools in their response to HSB.<br>• The MA partnership persists to identify solutions when encountering challenges in accessing and building relationships with individual schools in response to HSB. | • MA partnership draws upon KCSIE, and commits resources, in order to facilitate positive relationships with all education providers within their geographical area in their response to HSB. | • The MA partnership has limited resources in which to support schools in their response to HSB. These resources are used when schools request them.<br>• The MA partnership has accepted that relationships are only possible with schoolswho are open to their engagement. |
| **Response to trends** | Response to identified trends following an incident of HSB | • Following incidents of HSB within schools, the MA partnership identifies opportunities to develop preventative or de-escalatory interventions to associated young people e.g. via social work or health services, neighbourhood policing, or with young people currently on orders to the Youth Offending Service. | • Following incidents of HSB within schools, the MA partnership addresses the incident of concern and those who are directly affected as well as those who may be impacted by the incident. For example where threats of retaliation or similar concerns arise which could affect students and their families. | • Following incidents of HSB within schools, the MA partnership focuses its response on addressing the incident of concern and those directly affected. |
| **Thresholds** | Understanding and or application of thresholds associated to HSB | • The MA partnership works with schools to ensure a shared understanding of HSB thresholds. HSB thresholds used in the partnership have been shared with, and adopted by, schools.<br>• There are a range of responses within the MA partnership that fall across the continuum of HSB that schools can draw upon in order to address cases of HSB that are escalating. | • School's understanding of HSB thresholds are consistent with the local partnership's understanding of HSB thresholds. | • There is evidence of inconsistent application of HSB thresholds by staff within the MA partnership.<br>• The MA partnership responds to cases of contact HSB. There is not sufficient evidence of the MA partnership's response to cases of non-contact HSB. |

15 Farrer &Co *Peer on Peer Abuse Toolkit*, 2019, p.2
16 https://www.csnetwork.org.uk/en/publications/beyond-referrals-levers-for-addressing-harmful-sexual-behaviour-in-schools

## 3.2. Gwneud penderfyniadau ac ymateb

### Gwaith y Person Diogelu Dynodedig

Cyfrifoldeb y Person Diogelu Dynodedig yw sicrhau bod polisïau'r ysgol i ddiogelu ac amddiffyn plant a pholisïau perthnasol eraill wedi'u diweddaru ac yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.  Rhoddir mwy o fanylion am hyn yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

Mae ymchwil[17] wedi dangos manteision sicrhau bod adnoddau a threfniadau staffio'r Person Diogelu Dynodedig yn ddigonol, gan fod hynny'n galluogi ysgolion i ymateb yn gyson i Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, a hynny wedi'i integreiddio o fewn strwythurau diogelu ehangach ac yn cyd-fynd ag ymateb ehangach y bartneriaeth aml-asiantaeth leol. Roedd darpariaeth o'r fath hefyd yn ystyried ymateb yr ysgol yng nghyd-destun pryderon presennol a newydd yn ymwneud ag Ymddygiad Rhywiol Niweidiol. Roedd hefyd yn gyfle i ysgolion ddatblygu gwybodaeth y staff am Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a materion cysylltiedig, ac i ddatblygu capasiti i ganfod niwed, rheoli datgeliadau, a chefnogi myfyrwyr.

### Asesu: Pa fath o ymddygiad sy'n briodol yn rhywiol?

Wrth ymateb mewn ffordd gytbwys, briodol ac effeithiol i ymddygiad, a hwnnw'n ymddangos yn amhriodol yn rhywiol, y cam cyntaf yw deall yn glir beth sy'n briodol ac yn dderbyniol ac ystyried oedran a datblygiad y plentyn.  Ceir nifer o ffynonellau gwybodaeth am ddatblygiad rhywiol plant a phobl ifanc, a'r ymddygiad y gellir ei ddisgwyl ym mhob cyfnod yn eu datblygiad. Mae Adnodd Goleuadau Traffig Brook, y cyfeiriwyd ato eisoes ym Mhennod 1, yn enghraifft dda

https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cynnydd-chyrchfannau-dysgwyr-mewn-meysydd-dysgu-medrau-byw-yn-annibynnol-mewn?_ga=2.208213842.1557719912.1583828056-1126516216.1517653640

Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc, gan gynnwys eu hoedran, eu profiad o ofal, eu grŵp o gyfoedion a natur eu cymeriad.

- Gall diffyg magwraeth sylfaenol arwain at arafu datblygiad seicolegol, emosiynol a chorfforol. Gall hefyd arwain at lefelau uchel o hunanddibyniaeth a all ymddangos ar ffurf ymddygiad a welir fel arfer ymhlith plant neu bobl ifanc hŷn.
- Mae profiadau o gam-drin a chamdriniaeth yn aml yn arwain at lefelau uchel o straen, problemau canolbwyntio, problemau rheoli emosiynau, a phroblemau'n ymwneud â phobl eraill.
- Bydd ymatebion unigolion yn amrywio, gyda sefyllfaoedd a phrofiadau o'r fath yn effeithio'n fwy ar rai plant, ac yn llai ar blant eraill.
- Gall plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wynebu heriau gwybyddol sy'n golygu bod ymwneud â phobl eraill yn fwy anodd.
- Bydd ymddygiad eu cyfoedion yn dylanwadau ar ymddygiad plant a phobl ifanc hŷn.  Mae tystiolaeth bod y glasoed a phobl ifanc yn fwy parod i gymryd risgiau pan fyddant yng nghwmni'u cyfoedion na phan fyddant ar eu pennau'u hunain.
- Mae angen deall bod ymddygiad rhywiol ymhlith plant iau yn wahanol i ymddygiad rhywiol ymhlith plant hŷn ac oedolion. Nid yw plant cyn y glasoed yn deall rhyw nac yn profi cynnwrf rhywiol yn yr un modd â'r rheini yn eu glasoed ac oedolion.

Gyda golwg ar yr uchod, bydd angen safbwynt unigol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac ar gyd-destun yr ymddygiad, wrth ymdrin â phob un o'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi bod rhan o ddigwyddiad(au).

Gellir defnyddio model Continwwm Ymddygiad Rhywiol Hackett y cyfeirir ato ym Mhennod 1 y canllawiau hyn er mwyn deall yr ymddygiad a rhoi sail i'r ymateb iddo.

17 https://contextualsafeguarding.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/Final-Briefing-final-Beyond-Referrals.pdf

| Normal | Amhriodol | Problemus | Camdriniaeth | Treisgar |
|---|---|---|---|---|
| Yn ddisgwyliedig yn ddatblygiadol<br><br>Yn dderbyniol yn gymdeithasol<br><br>Cydsyniad, cilyddol, dwyochrog<br><br>Gwneud penderfyniadau ar y cyd | Achosion unigol o ymddygiad amhriodol<br><br>Ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ymhlith grŵp o gyfoedion<br><br>Gall cyd-destun yr ymddygiad fod yn amhriodol<br><br>Ar y cyfan yn golygu cydsyniad ac yn ddwyochrog | Ymddygiadau problemus sy'n achosi pryder<br><br>Yn anarferol yn ddatblygiadol ac yn annisgwyliedig yn gymdeithasol<br><br>Dim elfennau amlwg o ddioddef<br><br>Gall y sefyllfa gydsynio fod yn aneglur<br><br>Gall fod diffyg dwyochredd neu rym cyfartal<br><br>Gall gynnwys lefelau o orfodaeth | Bwriad neu ganlyniad sy'n achosi dioddef<br><br>Yn cynnwys camddefnyddio grym<br><br>Gorfodaeth a grym i sicrhau bod y dioddefwr yn cydymffurfio<br><br>Ymwthiol<br><br>Dim cydsyniad ar sail penderfyniad cytbwys, neu hwnnw ddim yn gallu cael ei roi'n rhydd gan y dioddefwr<br><br>Gall gynnwys elfennau o drais mynegiannol | Cam-drin rhywiol sy'n gorfforol dreisgar<br><br>Hynod ymwthiol<br><br>Cyflawni trais sy'n seicolegol a/neu'n rhywiol gyffrous i'r cyflawnwr<br><br>Sadistiaeth |

Wrth i weithwyr addysg proffesiynol ystyried achosion o ymddygiad rhywiol yn eu lleoliad hwy, mae'n bwysig eu bod yn edrych ar gyd-destun y digwyddiad, ac nid ar y ffeithiau'n unig. Bydd hyn yn help i benderfynu ble ar gontinwwm Hackett y mae'r ymddygiad a pha fath o ymateb sy'n briodol.

Mae Chaffin, Letourneau a Silovsky (2002, t208) yn awgrymu y dylid ystyried ymddygiad rhywiol plentyn yn anghyffredin yn yr achosion hyn:

- os yw'n digwydd yn amlach nag y byddai rhywun yn ei ddisgwyl yn ddatblygiadol
- os yw'n amharu ar ddatblygiad y plentyn
- os yw'n digwydd drwy orfodaeth, bygythiad neu rym
- os yw'n gysylltiedig â thrallod meddwl emosiynol
- os yw'n digwydd rhwng plant o wahanol oedrannau neu alluoedd datblygiadol
- os yw'n digwydd yn rheolaidd yn gyfrinachol ar ôl i ofalwyr ymyrryd

Gellir defnyddio'r cwestiynau canlynol i asesu ble ar y continwwm y mae'r ymddygiad:

- A oedd yr ymddygiad yn briodol yn ddatblygiadol?
- A oedd y datblygiad yn ddatblygiadol ddealladwy i'r plentyn hwn?
- Beth oedd y cyd-destun?
- Ai digwyddiad ynysig oedd hwn?
- Pwy arall oedd yn rhan o'r digwyddiad, a beth oedd eu barn am yr ymddygiad?
- A oedd ymgais i fod yn gyfrinachol?
- A oedd ffactorau eraill yn berthnasol e.e. ymddygiad ymosodol?

### Astudiaeth achos 1: Canfod ymddygiad rhywiol ymhlith plant ysgolion cynradd. (Ffynhonnell: Barnardo’s Cymru)

#### Diffinio’r cyd-destun

Mae Adam yn 7 oed. Mae Adam a bachgen arall wedi bod yn dangos eu pidynnau i’w gilydd yn nhoiledau’r ysgol. Y bachgen arall a ddatgelodd yr ymddygiad, ar ôl cwyno.

- A oedd yr ymddygiad yn briodol yn ddatblygiadol?
- A oedd y datblygiad yn ddatblygiadol ddealladwy i’r plentyn hwn?
- Beth oedd y cyd-destun?
- Ai digwyddiad ynysig oedd hwn?
- Pwy arall oedd yn rhan o’r digwyddiad, a beth oedd eu barn am yr ymddygiad?
- A oedd ymgais i fod yn gyfrinachol?
- A oedd ffactorau eraill yn berthnasol e.e. ymddygiad ymosodol?

#### Gwybodaeth newydd a chwestiynau pellach

Roedd y bachgen arall 2 flynedd yn iau nag Adam. Roedd wedi sôn am y peth wrth ei dad y noson ar ôl y digwyddiad, ac roedd yn anhapus am y peth. Dywedodd y bachgen wrth ei dad fod Adam wedi gofyn am gael *“cusanu ei bidyn”* ar ambell achlysur arall.

#### Casgliad

Byddai wedi bod yn bosibl diystyru’r digwyddiad hwn drwy ddweud mai ‘plant yw plant’. Drwy ofyn rhagor o gwestiynau i ganfod cyd-destun yr ymddygiad, deallwyd bellach fod Adam yn ei ddinoethi ei hun i blentyn ifanc ac yn gofyn dro ar ôl tro am gyswllt corfforol rhywiol.  Gellir disgrifio’r ymddygiad hwn yn broblemus o dan gontinwwm Hackett.

#### Beth nesaf? Ymateb i ddigwyddiadau o gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion.

Datblygwyd y tabl isod i ymarferwyr iechyd. Fodd bynnag, efallai y bydd yn ddefnyddiol i leoliadau addysg wrth ymateb i blant sy’n arddangos ymddygiad rhywiol, a dylid darllen cyfeiriadau at y Person Diogelu Dynodedig ym maes iechyd fel Person Diogelu Dynodedig yr ysgol.

## Responding to children who display sexualised behaviour

It’s important for health practitioners to be able to distinguish normal sexual behaviours from those that may be harmful, and make sure children get appropriate support.
Use this guide alongside the resources at **nspcc.org.uk/hsbhealth** to help you respond in the right way.

**Need advice?**
Contact our helpline for advice and support:
- Call **0808 800 5000**
- Email **help@nspcc.org.uk**
- Visit **nspcc.org.uk/helpline**

**Childline**
For children who need further support our free, confidential helpline is available 24/7:
- Call **0800 1111**
- Visit **childline.org.uk**

| Normal | Inappropriate | Problematic | Abusive | Violent |
|---|---|---|---|---|
| • Developmentally expected and socially acceptable behaviour<br>• Consensual, mutual and reciprocal<br>• Decision making is shared | • Single instances of developmentally inappropriate sexual behaviour<br>• Behaviour that is socially acceptable within a peer group<br>• Generally consensual and reciprocal<br>• May involve an inappropriate context for behaviour that would otherwise be considered normal | • Developmentally unusual and socially unexpected behaviour<br>• May be compulsive<br>• Consent may be unclear and the behaviour may not be reciprocal<br>• May involve an imbalance of power<br>• Doesn’t have an overt element of victimisation | • Intrusive behaviour<br>• May involve a misuse of power<br>• May have an element of victimisation<br>• May use coercion and force<br>• May include elements of expressive violence<br>• Informed consent has not been given (or the victim was not able to consent freely) | • Physically violent sexual abuse<br>• Highly intrusive<br>• May involve instrumental violence which is physiologically and/or sexually arousing to the perpetrator<br>• May involve sadism |
| **How to respond**<br>• Although green behaviours are not concerning, they still require a response<br>• Listen to what children and young people have to say and respond calmly and non-judgementally<br>• Talk to parents about developmentally typical sexualised behaviours<br>• Explain how parents can positively reinforce messages about appropriate sexual behaviour and act to keep their children safe from abuse<br>• Signpost helpful resources such as our PANTS activity pack: nspcc.org.uk/pants<br>• Make sure young people know how to behave responsibly and safely | **How to respond**<br>• Amber behaviours should not be ignored<br>• Listen to what children and young people have to say and respond calmly and non-judgementally<br>• Follow your organisation’s child protection procedures and make a report to the person responsible for child protection<br>• Your policy or procedure should guide you towards a designated health safeguarding lead who can be notified and will provide support<br>• Consider whether the child or young person needs therapeutic support and make referrals as appropriate | | **How to respond**<br>• Red behaviours indicate a need for immediate intervention and action<br>• If a child is in immediate danger, call the police on 999<br>• Follow your organisation’s child protection procedures and make a report to the person responsible for child protection<br>• Your policy or procedure should guide you towards a designated health safeguarding lead who should be notified and will provide support<br>• Refer the child or young person for therapeutic support | |

NSPCC Learning

In partnership with Durham University, NHS Supported by Health Education England

©National Society for the Prevention of Cruelty to Children (NSPCC) 2019. Registered charity England and Wales 216401. Scotland SC037717. J20181279.

## Mae Fframwaith Ymddygiad Rhywiol Niweidiol yr NSPCC[18] hefyd yn cyflwyno'r ymatebion hyn

**A continuum of HSB assessment (from Hackett, 2019)**

| | Normal | Inappropriate | Problematic | Abusive | Violent |
|---|---|---|---|---|---|
| Key behavioural elements | • Developmentally accepted<br>• Consensual | • Consensual and reciprocal<br>• Accepted in peer group<br>• Context may be inappropriate | • Developmentally unusual and socially unexpected<br>• No overt elements of victimisation.<br>• Consent may be unclear | • Victimising intent or outcome. Misuse of power<br>• Lack of consent | • Highly intrusive<br>• Physically violent sexual abuse |
| Assessment levels indicated | • Screening | • Screening<br>• Brief assessment.<br>• NICE Early help assessment | • NICE Early help assessment<br>• Brief/ comprehensive assessment | • Comprehensive assessment<br>• HSB focused risk assessment | • HSB focused risk assessment. Specialist assessment |
| Possible frameworks and tools | • Sexual behaviours are normative, therefore HSB assessment is not appropriate | • NICE guidance.<br>• Brook traffic light tool<br>• Child Sexual Behavior Checklist (Friedrich) | • NICE guidance.<br>• Brook traffic light tool<br>• DH Assessment Framework | • DH Assessment Framework<br>• AIM2<br>• J-SOAP<br>• ERASOR | • AIM2<br>• J-SOAP<br>• ERASOR<br>• SAVRY |
| Likely intervention focus | • Parent education and support (for example on appropriateness of child's behaviours) | • Boundary setting.<br>• Support<br>• Low key behaviour management | • Behaviour management.<br>• Socio-educative work with the child/ family<br>• System/ context change | • Protection of actual and likely victims<br>• Risk management and relapse prevention<br>• Supporting prosocial behaviour | • Protection of victims and public<br>• Violence prevention<br>• Risk management and relapse prevention<br>• High level of management and supervision |

Gellir ymateb i ymddygiad sydd yn y categori 'amhriodol' ar y continwwm yn fewnol yn yr ysgol, neu rhwng yr ysgol a'r rhieni/gofalwyr. Er enghraifft, mae'n debygol y gellid mynd i'r afael yn llwyddiannus ag un achos yn unig o ymddygiad amhriodol drwy addysgu a rhoi gwybodaeth mewn ffordd sensitif i'r plentyn/person ifanc. Os yw'r ymddygiad yn cynnwys mwy nag un plentyn neu berson ifanc, neu grŵp, mae'n bosibl y gellid rhoi sylw iddo mewn gwersi ABCh.

Mae'r NSPCC wedi datblygu cyfres o adnoddau dwyieithog[19] i gefnogi'r defnydd o adnodd PANTS yn yr ystafell ddosbarth. Mae adnodd PANTS yn galluogi oedolion i gael sgyrsiau syml, sy'n addas i'r oedran, â phlant am fod yn ddiogel, gan eu hannog i siarad am unrhyw beth sy'n eu poeni.

Ymhlith yr adnoddau sydd ar gael am berthnasau iach y mae'r rheini a ddarperir gan Schoolbeat[20] a Rhaglen Sbectrwm Hafan Cymru.[21]

**ASTUDIAETH ACHOS**
**– Ymddygiad amhriodol**

Anfonwyd neges fideo at Jenny, sy'n 12 oed, gan ei ffrind. Yn y fideo roedd cynnwys a ddangosai ymddygiad rhywiol gan oedolyn. Anfonodd Jenny'r neges ymlaen at weddill ei grŵp o ffrindiau.

Roedd ffrind Jenny yn 13 oed ac wedi gweld y fideo ar y cyfryngau cymdeithasol. Roeddent wedi'i rannu â Jenny gan ddweud fod y peth yn *"afiach"*. Cytunodd Jenny a'i anfon ymlaen.

Gwelodd un o rieni/gofalwyr y grŵp y neges a chwyno i bennaeth y flwyddyn am y cynnwys. Roedd hefyd yn anhapus bod y neges fideo wedi'i rhannu yn ystod oriau ysgol. Dyma'r tro cyntaf i unrhyw un o'r plant hyn ddod i sylw'r ysgol am ymddygiad a oedd yn achosi pryder.

18 Hackett, S., Branigan, P. and Holmes, D. (2019) Harmful sexual behaviour framework: an evidence-informed operational framework for children and young people displaying harmful sexual behaviours. 2il argraffiad. Llundain: NSPCC. https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/2019/harmful-sexual-behaviour-framework

19 https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/schools/pants-teaching

20 https://schoolbeat.cymru/cy/

21 https://www.hafancymru.co.uk/cy/ein-gwasanaethau/prosiectau-a-rhaglenni/sbectrwm/

Gall ymddygiad sy'n perthyn i'r categori 'problemus' ar y continwwm fod yn sawl math o ymddygiad sy'n achosi pryder. Bydd yn bosibl mynd i'r afael â rhai o'r ymddygiadau hyn yn yr ysgol ei hun. Pan deimlir bod yr ymddygiad yn broblemus ac yn achosi pryder, ond heb elfennau o ddioddef amlwg, a phan fydd diffyg eglurder ynghylch cydsynio, efallai y gall yr ysgol ymateb yn fewnol i ddatrys y broblem. Mae'n bosibl delio ag ymddygiadau mwy difrifol, pan fydd yr ymddygiad wedi golygu diffyg dwyochredd neu ddiffyg grym cyfartal, hefyd yn fewnol yn yr ysgol. Bydd y Person Diogelu Dynodedig yn goruchwylio'r achosion hyn a phan fydd y pryderon yn parhau, neu pan fydd pryderon pellach neu faterion cysylltiedig yn dod i'r amlwg, dylai'r Person Diogelu Dynodedig benderfynu a yw'r trothwy ar gyfer atgyfeirio i'r Gwasanaethau Plant statudol wedi'i gyrraedd, gan arwain at drafodaeth strategaeth a chyfarfod strategaeth dilynol am Ymddygiad Rhywiol Niweidiol os yw hynny'n briodol.

**ASTUDIAETH ACHOS**
**– Ymddygiad problemus**

Anfonodd Sam, sy'n 14 oed, negeseuon o natur rywiol at ferched yn ei flwyddyn, yn ogystal ag at rai yn y flwyddyn hŷn ac iau. Mae ambell ferch wedi cwyno ac mae un yn dweud ei fod wedi gofyn ar y bws ysgol a gaiff weld ei bronnau.

Mae ei athro dosbarth wedi siarad â Sam ambell waith ond mae'r cwynion am ei ymddygiad yn parhau.

Mae'r merched yn dweud ei fod yn gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus, ac maent yn gwrthod eistedd wrth ei ochr yn y dosbarth.

Mewn rhai achosion, bydd angen atgyfeirio ymddygiad sy'n amlwg ym mhen uchaf y categori 'problemus' i drafodaeth/cyfarfod strategaeth ar unwaith. Dylai ymateb yr ysgol wedyn fod wedi'i seilio ar ganlyniad cyfarfod strategaeth Ymddygiad Rhywiol Niweidiol aml-asiantaeth lle dylid ystyried anghenion yr holl blant dan sylw ar wahân.

Mae gan leoliadau addysg ddyletswydd i roi gwybod am blentyn sy'n wynebu risg o dan adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylid atgyfeirio ymddygiadau sy'n perthyn i'r categorïau camdriniaeth a threisgar i wasanaethau cymdeithasol plant. Dylai lleoliadau addysg ddilyn y broses a geir yn eu polisïau diogelu ac yng Nghanllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant pan fydd pryderon am Ymddygiad Rhywiol Niweidiol.[22] O dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ymchwilio os bydd hi'n ymddangos bod plentyn yn dioddef neu'n wynebu risg o ddioddef niwed sylweddol.

Dylid cwblhau cynlluniau diogelwch a'u rhoi ar waith ar gyfer pob plentyn er mwyn eu cefnogi i ddychwelyd i addysg neu i barhau â'u haddysg, ac i sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch pobl eraill. Mewn rhai achosion, bydd y gwasanaethau statudol yn cwblhau asesiadau cymesur i benderfynu ar unrhyw anghenion gofal a chefnogaeth ar gyfer plant sy'n dangos ymddygiad problemus ac ymddygiad sy'n achosi pryder, a hynny'n ychwanegol ar y cynlluniau diogelwch addysg.

**ASTUDIAETH ACHOS**

Yn ystod taith breswyl gyda'r ysgol, dywedir bod Gethin, sy'n 15 oed, wedi cael rhyw geneuol gyda bachgen o'r un oed.

Ar ôl y daith, sylwodd ei rieni ei fod yn anhapus iawn. Yn y pen draw, dywedodd wrthynt ei fod wedi cytuno i'r weithred yn ystod gêm o gyfaddef a herio, ond nad oedd wedi teimlo'n gyfforddus yn gwneud hyn. Roedd wedi'i ysgwyd, ac yn dweud bod Jack, yr arweinydd yn y grŵp, wedi dweud na fyddai'n cael bod yn rhan o'r grŵp pe na bai'n derbyn yr her.

Mae Simon yn cael trafferthion yn gymdeithasol ac ers dychwelyd i'r ysgol mae Jack wedi dweud wrtho fod ganddo fideo o'r weithred. Mae Jack wedi dweud wrtho y bydd yn rhannu'r fideo oni bai ei fod yn gwneud hyn eto.

22 https://diogelu.cymru/chi/c6/c6.p7.html

# Atodiadau: Enghraifft o Gynllun Diogelwch Disgybl Ysgol

| Enw'r Disgybl | Blwyddyn | Dosbarth |
|---|---|---|
| | | |

| Beth yw'r patrymau ymddygiad sy'n achosi pryder i'r plentyn neu i bobl eraill |
|---|
| **Dyma enghreifftiau**<br>• Anhawster yn ffurfio ac yn cynnal perthnasau iach â chyfoedion.<br>• Anhawster yn datrys problemau, rheoli anghytuno neu wrthdaro<br>• Sylwadau neu sgyrsiau amhriodol â chyfoedion sy'n arwain at sefyllfa chwithig a heriol i'r plentyn ac i bobl eraill.<br>• Diffyg ymwybyddiaeth o ffiniau corfforol priodol i'r oedran, diffyg ymwybyddiaeth ofodol, a chyswllt corfforol amhriodol â phlant neu oedolion eraill yn arwain at gwynion.<br>• Diffyg ymwybyddiaeth o ddiogelwch digidol, o'r defnydd o rwydweithiau cymdeithasol ac o'r ffiniau priodol wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, a'r defnydd yn amhriodol/yn arwain at gwynion. Pryderon am risg o gamfanteisio ar y plentyn ar-lein.<br>• Y plentyn yn ei chael hi'n anodd rheoli ei emosiynau a'i ymddygiad ei hun ac yn dibynnu ar oedolion i gael cymorth gyda hyn.<br>• Y plentyn angen modelau i'w hefelychu ac arweiniad i ddygymod â pherthnasau, yn rhamantus ac yn gyfeillgarwch<br>• Nid yw'r rheolau preifatrwydd yn briodol i'r oedran ac nid yw'n ymddangos bod gan y plentyn ddealltwriaeth dda o normau cymdeithasol preifatrwydd, sy'n gallu arwain at gwynion am y plentyn ynghyd â chynyddu'r risg y bydd pobl yn camfanteisio arno |
| **Pa risgiau y mae angen inni bryderu amdanynt, a phwy fydd yn wynebu'r risgiau hyn?** |
| **Y risg i'r plentyn a phobl eraill: Enghreifftiau**<br>• Nid oes gan y plentyn y sgiliau angenrheidiol i ddatblygu perthnasau cydfuddiannol, sy'n ei adael yn agored i geisio cysylltu â phobl eraill mewn ffyrdd amhriodol.<br>• Mae normau a disgwyliadau'r plentyn yn rhai problemus mewn perthnasau, a hynny'n effeithio ar ei ymddygiad<br>• Mae'n rhannu gormod o wybodaeth heb ddeall rheolau a ffiniau preifatrwydd a hynny'n cynyddu'r risg i'r plentyn neu i bobl eraill.<br>• Mae'r plentyn yn ceisio gwneud ei berthynas â rhywun arall yn berthynas iddynt hwy'n unig, heb i hynny gael ei groesawu ar yr ochr arall<br>• Nid oes gan y plentyn lawer o ffiniau mewnol i reoli ei ymddygiad ac mae hynny'n effeithio ar ei fympwy, ei resymeg, a'i ffordd ganlyniadol o feddwl yn y byd digidol a'r byd nad yw'n ddigidol.<br>• Mae diffyg ymwybyddiaeth o ffiniau corfforol yn arwain at ddangos hoffter gormodol o rywun, a hynny'n ddigroeso, gan arwain o bosibl at gŵyn.<br>• Mae gan y plentyn ddiffyg ymwybyddiaeth o wahanol oedrannau gan gynnwys oedolion (staff addysgu ac ymwelwyr â'r lleoliad addysg)<br>• Gall diffyg ymwybyddiaeth o reolau preifatrwydd wneud y plentyn neu bobl eraill yn agored i niwed |

**Pa gamau y gellid eu cymryd i ateb yr anghenion sylfaenol a lleihau'r risg i'r plentyn ac i bobl eraill?**

**Enghreifftiau**

- Mynediad i ddarpariaeth anogaeth yn ystod amseroedd heb eu strwythuro fel yr egwyl ac amser cinio. Y plentyn i gael cerdyn i gael cefnogaeth ar unwaith
- Diogelwch Ar-lein Y staff i fod yn ymwybodol o'r problemau ac i fonitro pan fydd y plentyn yn defnyddio TGCh  Pan fydd hynny'n bosibl, y plentyn i eistedd ger yr athro ar yr adegau hyn.
- Y staff i wirio'n rheolaidd â'r plentyn i sicrhau ei fod yn teimlo'n fodlon ac yn deall cynnwys y gwersi.
- Teithiau a digwyddiadau'r ysgol: 1 aelod o staff i oruchwylio'r plentyn drwy gydol teithiau a digwyddiadau'r ysgol. Dylai staff fod yn ymwybodol o'r risg bosibl a'r strategaethau i'w defnyddio. Cynlluniau eistedd ar drafnidiaeth; dylid meddwl yn ofalus am hyn.  Y plentyn i fod yn ymwybodol o'r trefniadau a phwy yw'r oedolyn/athro a fydd yn ei gefnogi.
- Grwpio Cyfoedion yn y dosbarth ac ati: Y staff perthnasol i fod yn ymwybodol o'r prif faterion ac i fod yn ymwybodol pwy sydd yn grŵp y plentyn a ble i leoli'r grŵp yn yr ystafell, h.y. mewn lle gall y staff fonitro, a ger y drws rhag ofn y bydd angen i'r plentyn adael ar fyr rybudd.
- Mae gan y plentyn focs bwyd i osgoi problemau posibl yn y ffreutur/adeg egwyl/amser cinio.
- Ystyried cludiant i'r ysgol ac os yw'n briodol dylai gofalwr/oedolyn y mae'r plentyn yn ymddiried ynddo ei godi o'r ysgol.
- Gwneud atgyfeiriadau priodol i helpu gydag unrhyw anghenion nad yw'r ysgol yn gallu darparu ar eu cyfer.
- Newid ar gyfer Addysg Gorfforol – bydd y staff yn cael gwybod ac yn ymwybodol o bryderon am ystafelloedd newid, ac os bydd angen yn rhoi gwybodaeth i'r plentyn (mewn ffordd y byddant yn ei deall) ynghylch beth/sut i newid.
- Cerdyn Ymdawelu: os bydd angen, y plentyn i gael cerdyn amser i'w helpu i ddatblygu strategaethau ymdopi/gofyn am gymorth.
- Cefnogi a Monitro: Bydd angen goruchwyliaeth 'llinell weld' barhaus ar rai plant Dylai hyn geisio rhoi amgylchedd mwy diogel i'r plentyn a mwy o gyfleoedd iddo ddefnyddio sgiliau y mae wedi'u dysgu, rheoli ei emosiynau a'i ymddygiadau, a datblygu ymdeimlad o annibyniaeth gytbwys.
- Aelod dynodedig o staff i ofalu bod y plentyn yn iawn yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw pryderon yn gwaethygu.  Er enghraifft wrth gyrraedd yr ysgol e.e. yn y bore, canfod hwyliau'r plentyn a'i atgoffa o'r cymorth sydd ar gael/ymddygiad. Sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn effro os teimlir bod angen cymorth ychwanegol ar unrhyw ddiwrnod neu yn ystod unrhyw wers.
- Y plentyn i gael adborth rheolaidd ynghylch yr hyn mae'n ei wneud yn dda a rhoi enghreifftiau iddo, a phobl i'w hefelychu yn y meysydd ble mae angen cymorth arno.
- Y staff i fod yn ymwybodol o'r ardaloedd yn yr ysgol lle bydd plant yn ymgasglu o olwg y staff addysgu, ac i arwain y plentyn i ffwrdd o'r ardaloedd hyn gan ei fod yn agored i niwed
- Y plentyn i gael cefnogaeth i fynd i weithgareddau ychwanegol/ar ôl ysgol pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, gan sicrhau bod y camau uchod yn cael eu rhoi ar waith i gadw pob plentyn yn ddiogel

**Cymorth ychwanegol y bydd ei angen**

E.e.: Rhoi proses fonitro ar waith i edrych eto ar y camau a gyflwynwyd ar adegau addas neu pan fydd galw.

Cefnogaeth aml-asiantaeth ar gael a'r cyfathrebu'n dda

Staff i gael hyfforddiant/gwasanaeth ymgynghori ynghylch cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys ymddygiadau rhywiol problemus a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, a hynny ar-lein a phan na fydd plant ar-lein

| **Pa weithgareddau na ellir eu rheoli'n ddiogel?** |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Wedi'i gwblhau gan: | |
| Dyddiad cwblhau: | |
| Dyddiad adolygu: | |

1. Gan ddefnyddio'r Continwwm, mae'r pryderon dan sylw'n perthyn i'r categori amhriodol. Gellir defnyddio cynllun diogelwch i gefnogi'r plentyn yn yr ysgol heb fod angen cefnogaeth allanol/statudol.
2. Gan ddefnyddio'r Continwwm, mae'r pryderon yn perthyn i'r categori problemus. Gellir defnyddio cynllun diogelwch i gefnogi'r plentyn yn yr ysgol er y gall fod angen cefnogaeth asiantaethau allanol i helpu i gadw'r plentyn a phobl eraill yn ddiogel.
3. Gan ddefnyddio'r Continwwm, mae'r pryderon yn perthyn i'r categori camdriniaeth/treisgar. Gellir defnyddio cynllun diogelwch i gefnogi'r plentyn yn yr ysgol, er y dylid rhoi gwybod i'r gwasanaethau statudol yn unol â phrotocolau'r ysgol a'r Canllawiau Cenedlaethol.

- A yw'r holl wybodaeth am y disgybl(ion) ar gael i'r holl staff perthnasol?
- A gysylltwyd â'r gwasanaethau perthnasol?
- A yw pobl a allai wynebu risg yn ymwybodol sut y dylent ymateb?
- A yw'r holl gamau i leihau'r risgiau a ganfuwyd wedi'u cyflwyno?
- A oes cynlluniau wrth gefn ar gyfer cydweithwyr absennol a enwir yng nghamau'r cynllun diogelu?
- A oes cynlluniau gweithredu priodol ar gyfer argyfwng, gan gynnwys rhifau cyswllt rhiant/gofalwr, yr heddlu, a gweithwyr cymdeithasol?
- A yw gweithwyr a phobl eraill berthnasol yn ymwybodol o'r camau diogelwch?

**Gofalwch fod copi o'r ffurflen hon wedi'i chadw yn ffeil y plentyn.**

Credwch mewn plant
Barnardo's Cymru

@BarnardosCymru BarnardosCymru

www.barnardos.org.uk

Rhifau Cofrestru'r Elusen Barnardo's 216250 a SCO37605

Mewn partneriaeth â

NSPCC
CYMRU | WALES

@NSPCC_Cymru

www.nspcc.org.uk

Registered charity England and Wales 216401. Scotland SC037717.